




CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD GWENT

DIWEDDARWYD EBRILL 2019

SICRHAU GWENT MWY DIOGEL

2017 2021



CYSYLLTU Â'CH COMISIYNYDD

commissioner@gwent.pnn.police.uk

01633 642 200

www.gwent.pcc.police.uk

@GwentPCC

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar
gyfer Gwent

Pencadlys yr Heddlu

Cwmbrân

NP44 2XJ

CYNNWYS

TUDALEN

1-2	Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
3	Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl
4	Gweledigaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion Allweddol
5-10	Blaenoriaethau'r Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent
11	Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Blaenoriaethau'r Cynllun
12	Gweithio gyda Phartneriaid
13-16	Cyd-destun Plismona a Throseddu yng Ngwent
17	Y Gofyniad Plismona Strategol
18	Gweledigaeth Plismona 2025
18	Deddf Plismona a Throsedd 2017
19-20	Ymrwymiad i Gydraddoldeb a Llesiant
21-22	Cost Plismona yng Ngwent
23-25	Monitro, Perfformiad a Chraffu
26-27	Gweithio gyda'n gilydd i Wneud Gwent yn Fwy Diogel
28	Sylwadau i Gloi
29	Mynegai o Ddolenni Gwe

CYFLWYNIAD GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU



RWYF WEDI DIWEDDARU'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD HWN OHERWYDD BOD NATUR TROSEDDU'N NEWID YN GYFLYM A'R EFFAITH MAE HYN YN EI GAEL AR OFYNION PLISMONA LLEOL YNG NGWENT.

Mae'r ffaith bod troseddau'n esblygu'n barhaol yn peri her sylweddol ar adeg pan mae gwasanaethau plismona'n wynebu pwysau ychwanegol oherwydd lleihad mewn cyllid gan y llywodraeth. Mae rhai heriau y gellir eu rhagweld - er enghraifft, y cynnydd mewn troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber yn sgil datblygiadau technolegol - ond mae'n anoddach gydag eraill, yn arbennig wrth edrych ar droseddau difrifol a chyfundrefnol a'r effaith andwyol mae'r rhain yn ei gael ar gymunedau.

Wrth i'r problemau hyn esblygu, mae'r ffordd rydym yn ymateb er mwyn mynd i'r afael â nhw yn gorfod esblygu hefyd. Gall hyn amrywio o sut rydym yn adnabod a rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-fanteisio rhywiol, i gaethwasiaeth fodern a cham-fanteisio troseddol, yn arbennig ymysg ein plant a phobl ifanc a grwpiau lleiafrifol.

Rydym yn gwybod bod tystiolaeth gynyddol yn dangos bod profiadau niweidiol yn

ystod plentyndod yn cael effaith trwy gydol oes, sy'n cynyddu'r tebygrwydd bod pobl yn dod yn ddioddefwyr ac yn dramgwyddwyr. Gyda'n gilydd, mae dyletswydd arnom i roi sylw i'r difrod sylweddol a achosir gan gam-drin a cham-fanteisio ar bobl. Oherwydd yr holl broblemau hyn, roeddwn yn teimlo ei bod yn amser diweddaru fy nghynllun heddlu a throseddau. Fel pob comisiynydd heddlu a throseddau, mae dyletswydd gyfreithiol arnaf i gyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddau sy'n rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plismona a throseddau. Mae gwerthoedd ac egwyddorion allweddol yn sbarduno'r Cynllun hwn, a gafodd ei gyhoeddi gyntaf yn 2017. Mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan y weledigaeth fod gan bobl Gwent hyder yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Nid wyf erioed wedi ystyried bod fy Nghynllun Heddlu a Throseddau yn ddogfen



sefydlog ac, oherwydd hynny, rwyf wedi ei diweddaru yn awr. Mae'r ddogfen ddiweddaedig hon yn fwy eglur ac yn haws i'r cyhoedd ei deall ac mae'n dangos y gwaith da sy'n cael ei gyflawni gan Heddlu Gwent mewn cymunedau ledled ardal y lluo bob dydd. Fel rhan o'r broses hon, rwyf wedi ystyried y gofynion plismona cenedlaethol i sicrhau bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu'r problemau heddlu a throseddau mae pob un ohonom yn eu hwylusio ac anghenion amrywiol ein cymunedau.

Er fy mod wedi diweddaru'r



mesurau y byddaf yn eu defnyddio i fonitro perfformiad, rwyf wedi penderfynu cadw fy mlaenoriaethau plismona ar gyfer Gwent fel a ganlyn:

- Atal Troseddu;
- Cefnogi Dioddefwyr;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Darparu Gwasanaeth Effeithiol.

Mae dyletswydd arnaf i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am wasanaethau plismona yng Ngwent. Rwy'n cyfeirio at droseddau difrifol a chyfundrefnol trwy'r cynllun cyfan, er mwyn pwysleisio eu pwysigrwydd a sicrhau bod amddiffyn y preswylwyr mwyaf agored i niwed yn dal yn flaenoriaeth i Heddlu Gwent.

Atal troseddu yw prif ffocws y cynllun o hyd. Byddaf yn parhau i geisio darparu'r gwasanaeth gorau posibl er mwyn gwella diogelwch cymunedol, amddiffyn pobl fregus a rhoi cymorth i ddiodeffwyr troseddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl sydd wedi dioddef niwed difrifol. Mae fy nghynllun yn dal i lywio penderfyniadau ynghylch trawsnewid a'r ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau i gadw pobl yn ddiogel a darparu gwasanaeth effeithiol, hygyrch y gellir ymddiried ynddo sydd hefyd yn rhoi gwerth am arian i bobl Gwent. Rwyf am i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymunedau'n llefydd diogel a bywiog i fyw ynddynt. Ni allaf roi digon o bwyslais ar bwysigrwydd gwaith partner wrth fy helpu i, fy swyddfa a Heddlu Gwent i ddarparu ar gyfer ein cymunedau. Rwy'n credu bod gwaith partner yn hollbwysig os ydym am wneud gwelliannau effeithiol yn ein cymunedau. Mae ei bwysigrwydd wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gwneud cydweithredu rhwng yr holl wasanaethau sydd wedi datganoli yng Nghymru yn statudol trwy fyrddau gwasanaeth cyhoeddus. Trwy weithio gyda phartneriaid allweddol a gwasanaethau cyhoeddus, gallwn ddarparu'r ansawdd bywyd gorau posibl i'n dinasyddion. Yn benodol, bydd hyn yn helpu'r bobl fwyaf bregus a phobl sy'n cael eu cam-drin ac yn dioddef cam-fanteisio, gan na all asiantaethau cyfiawnder troseddol ymdrin â'r materion hyn ar eu pennau eu hunain. Rwyf wedi ymroi i wasanaeth dwyieithog hefyd er mwyn ymgysylltu'n llwyr â'r aelodau o'n cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod fy swyddfa a Heddlu Gwent yn ei gyfanrwydd yn cyflawni ac yn cynnal Safonau'r Gymraeg.

Rwyf yn gweithredu i sicrhau y gallwn gynnal plismona rheng flaen hyd y gellir. Bydd hyn yn gofyn am gryn dipyn o ffocws ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, defnyddio adnoddau'n effeithiol a derbyn technolegau newydd; a hynny oll wrth roi gwerth am arian a sicrhau bod lefelau troseddu yn gostwng. Gallaf eich sicrhau, fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y byddaf yn parhau i wrando ar eich problemau a'ch pryderon ac yn gweithio gyda chi i wneud Gwent yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo. Rwy'n benderfynol o sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal a lleihau troseddu sy'n achosi'r niwed mwyaf yn ein cymunedau ac yn effeithio ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Jeff Cuthbert

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

CYFLWYNIAD GAN Y PRIF GWNSTABL

Mae'r fersiwn diweddaredig hwn o'r Cynllun Heddlu a Throsedd 2019 - 2021 yn ddatblygiad o'r gwaith gwyb sydd wedi cael ei gwblhau ers i'r cynllun dechreuol ddod i rym yn 2017.

Mae Heddlu Gwent wedi ymroi i sicrhau bod pobl fregus, a mynd i'r afael â throsedd difrifol a chyfundrefnol, wrth wraidd yr hyn mae'r llu yn ei gynrychioli. Mae'r gwaith rhagweithiol hwn, sy'n cynnwys y twf parhaol mewn seiberdroseddau, sy'n gynyddedig yn y cynllun diweddaredig yn awr, yn faes sy'n cael blaenoriaeth haeddiannol gan Heddlu Gwent. Plismona cymdogaeth yw craidd yr hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau lleol. Mae ein timau'n rhagweithiol wrth ddatrys problemau a gwrando ar ein cymunedau. Mae'r gudd-wybodaeth a'r dull cadarn o weithio a ddarperir gan ein swyddogion lleol yn cyfrannu tuag at ein hawydd diddiwedd i fynd i'r afael â throseddau mwy difrifol sy'n cael eu crybwyll yn y cynllun hwn hefyd. Mae amddiffyn y cyhoedd a thawelu eu meddwl yn bwysig i Heddlu Gwent, ac ar y cyd ag ymdrin â throseddau sy'n dod yn fwy amlwg megis caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a thrwy ein gwaith gyda phartneriaid a'r cymunedau eu hunain, rydym yn gwneud popeth y gallwn ni i gadw Gwent yn ddiogel.

P. C. Kelly

**Pam Kelly
Prif Gwnstabl**



GWELEDIGAETH, GWERTHOEDD AC EGWYDDORION ALLWEDDOL



Mae dyletswydd gyfreithiol arnaf i gyhoeddi Cynllun sy'n nodi fy mlaenoriaethau o ran yr heddlu a throseddu.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plismona a throseddu yng Ngwent rhwng 2017 a 2021. Er mwyn pennu blaenoriaethau plismona Gwent, mae gwerthoedd ac egwyddorion allweddol yn sbarduno'r hyn a wnawn. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u hatgyfnerthu gan y weledigaeth fod gan bobl Gwent hyder yn y gwasanaethau a ddarparwn sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Gwerthoedd ac egwyddorion allweddol y Cynllun hwn yw:

- Sicrhau fy mod yn gweithio mewn ffordd agored, gonest a thryloyw gyda'r cyhoedd lle y byddaf yn ymgysylltu, yn gwrando, yn rhoi adborth ac yn gwneud gwahaniaeth;
- Hyrwyddo hygyrchedd a gweladwyedd yr heddlu ar y cyd â'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod presenoldeb swyddogion yr heddlu mewn lifrai wedi'i drefnu ac wedi'i ddefnyddio mor effeithiol â phosibl;
- Bod yn effro i natur newidiol troseddu fel y gallwn ymateb i heriau megis seibrdroseddu, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, pryderon ynglŷn â diogelu, cyffuriau a cham-drin yn rhywiol a marchnata mewn pobl, gan gynnwys caethwasiaeth;
- Creu a chynnal prosesau cyfathrebu a chydlyniant â phob cymuned yng Ngwent fel y bydd pobl yn teimlo'n hyderus ein bod ni a'r Heddlu yn deall eu gwahanol anghenion tra'n sicrhau bod parch tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn sail i bopeth a wnawn;
- Sicrhau bod gan Heddlu Gwent adnoddau addas i'r pwrpas ar gyfer plismona mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson, defnyddio technoleg newydd ac arferion gweithio cyfredol i ddiogelu a thawelu meddwl y cyhoedd;
- Ymroi i gefnogi anghenion diogelu ac anghenion lles plant ac oedolion bregus, megis y rhai sydd mewn argyfwng, unigolion sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl a'n dinasyddion hŷn;
- Parhau i wella gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol er mwyn cefnogi cydweithio a fydd yn cyflawni fy mlaenoriaethau;
- Parhau i gefnogi'r Gofyniad Plismona Strategol drwy ddarparu adnoddau a rhoi cymorth yn ôl yr angen;
- Darparu system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon yng Ngwent;
- Comisiynu gwasanaethau mewn ffordd gadarn er mwyn cyflawni fy mlaenoriaethau;
- Gweithredu Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un statws â'r Saesneg;
- Meithrin perthynas gryf a chadarnhaol â Llywodraethau er mwyn sicrhau bod cynlluniau effeithiol sy'n cefnogi plismona, megis darparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Ngwent, yn parhau;
- Sicrhau bod y bobl sy'n gweithio yn fy Swyddfa a Heddlu Gwent yn teimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi ac wedi'u cefnogi wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu drwy roi Cynllun Pobl effeithiol ar waith;
- Rhoi gwerth am arian i bobl Gwent.



BLAENORIAETHAU'R HEDDLU A THROSEDDU AR GYFER GWENT

BLAENORIAETHAU PLISMONA GWENT AR GYFER 2017-2021 YW:

- Atal Troseddu;
- Cefnogi Dioddefwyr;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; ac
- Darparu Gwasanaethau'n Effeithiol.y.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Prif Gwnstabl a phartneriaid eraill i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn gan gydnabod, mewn sefyllfaoedd lle mae pobl yn fregus, yn aml iawn ni ellir datrys problemau trwy blismona yn unig. Rwyf wedi datblygu Fframwaith Perfformiad newydd i fonitro a gwerthuso cynnydd Heddlu Gwent, prosiectau sy'n derbyn cyllid a pherfformiad fy swyddfa yn erbyn y cynllun hwn. Bydd y Prif Gwnstabl yn darparu Cynllun Cyflawni manwl bob blwyddyn o'r gweithgareddau arfaethedig i gyflawni'r canlyniadau

gofynnol er mwyn bodloni fy mlaenoriaethau o safbwynt plismona. Bydd fy swyddfa'n cynhyrchu Cynllun Busnes hefyd, a fydd yn cynnwys manylion y cyfraniad mae'n ei wneud tuag at gyflawni fy mlaenoriaethau. Bydd canlyniadau'r holl weithgareddau yn cael eu cofnodi bob blwyddyn yn fy adroddiad blynyddol. Yn dilyn mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn dechrau symud tuag at un gwasanaeth cyhoeddus. Mae pob un ohonom yn gyfrifol am wneud Gwent yn lle mae pobl eisiau byw a gweithio ynddo.

Drwy weithio gyda'r Prif Gwnstabl a phartneriaid, rwyf am sicrhau bod:

- Pobl sy'n byw yng Ngwent, sy'n gweithio yng Ngwent neu sy'n ymweld â Gwent yn ddiogel;
- Gwasanaethau plismona a throseddu yn cael eu darparu gan ddangos gwerth am arian; ac
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn gyflogwyr y mae pobl am weithio iddynt.



1 ATA L TROSEDDU

HYRWYDDO
A LLEIHOU
TROSEDDAU
SY'N ACHOSI'R
NIWED MWYAF
YN EIN
CYMUNEDAU
AC YN ERBYN
Y BOBL FWYAF
BREGUS



Bydd yr heddlu, partneriaid a fy swyddfa i'n cyflawni hyn trwy:

- Weithio mewn partneriaeth i dargedu a lleihau troseddau sy'n achosi'r mwyaf o niwed yn ein cymunedau, a cheisio'u hatal yn rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys seiberdroseddau a throseddau a hwylusir gan ddulliau seiber, troseddau difrifol a chyfundrefnol, trais difrifol, caethwasiaeth fodern, cam-drin domestig, troseddau rhywiol difrifol ac eithafiaeth.
- Mynd i'r afael â phobl sy'n ail drosedd yng Ngwent trwy ymyrryd yn gynnar, dargyfeirio a defnyddio rhaglenni rheoli troseddau sy'n rhoi sylw i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trauma ac agweddau at drosedd, gan annog pobl i wrthsefyll a chymryd cyfrifoldeb.
- Addysgu a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau troseddau, gan gynnwys seiberdroseddau a throseddau a hwylusir gan ddulliau seiber, camddefnydd cyffuriau ac alcohol, trais a throseddau casineb.

2 CEFNOGI DIODDEFWYR

RHOI CYMORTH ARDDERCHOG I DDIODDEFWYR
TROSEDDAU, GAN GANOLBWYNTIO'N BENODOL AR Y
BOBL SYDD WEDI DIODDEF Y NIWED MWYAF DIFRIFOL

Bydd yr heddlu, partneriaid a fy swyddfa
i'n cyflawni hyn trwy:

- Sicrhau bod dioddefwyr yng Ngwent yn derbyn gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr ac sy'n rhoi cymorth amserol a phriodol i ddioddefwyr troseddau gan gynnwys troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber, cam-drin domestig, troseddau rhywiol, troseddau casineb a chaethwasiaeth fodern.
- Gweithio gyda heddlu a phartneriaid yng Ngwent ac yn genedlaethol i ganfod pob mathau o gam-fanteisio a cham-drin, gan gynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, cam-drin a cham-fanteisio rhywiol a throseddol, mynd i'r afael â nhw ac ymchwilio iddynt.
- Sicrhau bod y gwasanaeth heddlu'n adnabod pobl fregus ac yn ymateb yn briodol er mwyn lleihau niwed.
- Gweithio gyda'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol a phartneriaid eraill i sicrhau ffocws cydlynol ac integredig sy'n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol.



3 CYDLYNIANT CYMUNEDOL

GWELLA DEALLTWRIAETH A PHARCH YMYSG CYMUNEDAU ER MWYN GWELLA CYDRADDOLDEB, DIOGELWCH A LLES



Bydd yr heddlu, partneriaid a fy swyddfa i'n cyflawni hyn trwy:

- Cael barn y cymunedau ar faterion plismona a throsedd a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau.
- Darparu cyfleoedd i gynnwys y gymuned mewn gwaith plismona sy'n hyrwyddo parch, cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Sicrhau ymroddiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd.
- Sicrhau bod gweithlu Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cynrychioli'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau ac ymateb i anoddefgarwch a gwahaniaethu.



4 MYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

SICRHAU BOD HEDDLU GWENT YN GWEITHIO I DDATRYYS YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, GWEITHIO'N AGOS GYDA SEFYDLIADAU PARTNER I HELPŲ I FYND I'R AFAEL Â'R BROBLEM YN EFFEITHIOL

Bydd yr heddlu, partneriaid a fy swyddfa i'n cyflawni hyn trwy:

- Gweithio gyda'r cyhoedd i ganfod achosion a datrysiadau i faterion diogelwch cymunedol a materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cydnabod y gallant fod yn arwyddion o gam-drin a cham-fanteisio.
- Canolbwyntio ar ymyrryd ac atal yn gynnar a rhoi sylw i ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad troseddol trwy waith partner creadigol ac ymyriadau cyfiawnder adferol.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gweithgareddau sy'n tynnu sylw pobl oddi wrth droseddu a chynyddu ymwybyddiaeth o effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol.



5 DARPARU GWASANAETH EFFEITHLON AC EFFEITHIOL

SICRHAU BOD HEDDLU GWENT YN DARPARU
GWASANAETHAU SY'N DIWALLU PRIF ANGHENION
EIN CYMUNEDAU

Bydd yr heddlu, partneriaid a fy swyddfa
i'n cyflawni hyn trwy:

- Sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn dryloyw, yn foesegol ac yn agored i graffu gan y cyhoedd.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol a sicrhau bod Heddlu Gwent yn ymateb a rhoi adborth.
- Sicrhau bod trefniadau cynllunio a monitro ariannol effeithiol ar waith i sicrhau gwerth am arian ac i ddiwallu anghenion lleol.
- Darparu trefniadau priodol er mwyn bod yn llu heddlu effeithiol.



YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNGHYLCH BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN


Rwy'n awyddus i fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddau gweladwy a chynhwysol ac rwy'n benderfynol o sicrhau bod pobl yn deall gwerth gwirioneddol y swydd hon.

Mae gennym Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, sy'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod pob aelod o'r gymuned, hyd y gellir, yn cael cyfle i gymryd rhan yn fy ngweithgareddau ymgysylltu. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhoi cyfle i bobl leisio eu barn ynglŷn â sut y caiff gwasanaethau'r heddlu eu darparu a chymryd rhan weithredol yn y broses gwneud

penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gwasanaethau lleol. Dim ond drwy wrando ar broblemau a phryderon pobl, a thrwy roi anghenion yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wnawn, y gallwn geisio rhoi'r ansawdd bywyd gorau posibl i'n dinasyddion. Dyna pam y byddaf yn parhau i gynnal a mynychu cymorthfeydd a digwyddiadau ymgysylltu ar adegau sy'n gyfleus i'r cyhoedd dros y pedair blynedd nesaf. Mae fy swyddogion a minnau hefyd yn mynychu digwyddiadau, fforymau, cyfarfodydd a grwpiau trafodaeth i fynd ati i ymgysylltu â chymunedau, partneriaid a sefydliadau ledled Gwent. Drwy hyn gallaf gasglu safbwyntiau ar blismona lleol er mwyn llywio

ffocws a blaenoriaethau'r Cynllun hwn. Wrth lunio'r blaenoriaethau hyn, rwyf wedi ystyried gofynion plismona lleol a chenedlaethol, ac wedi ymgynghori'n eang â chymuned Gwent. Cynheliais ymgynghoriad ar y we rhwng mis Awst a mis Hydref 2016 a arweiniodd at ymatebion gan 759 o bobl yn nodi bod y rhan fwyaf ohonynt o blaid fy holl flaenoriaethau. Y pum blaenoriaeth y gofynnwyd i bobl wneud sylwadau arnynt oedd atal troseddau (1), rhoi cymorth i ddioddefwyr troseddau (2), cydlyniant cymunedol (3), ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (4) a darparu gwasanaethau'n effeithiol (5).

Mae'r graff isod yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ymatebion a gyflwynwyd.



Mae'r diagram ar y dde yn dangos y pynciau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr fel rhai pwysig wrth ystyried blaenoriaethau'r heddlu a throseddau.

Roedd sylwadau ynglŷn â 'swyddogion' yn ymwneud yn bennaf â hygyrchedd a gweladwydd mewn cymunedau.

Mae'r adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad a chanfyddiadau'r arolwg ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Cyfarfodydd **Effeithiol** **Adnoddau**
Gyrru'n rhy gyflym
Dioddefwyr **Gorfodi** **Ymateb**
Swyddogion Cymorth Cymunedol **Swyddogion**
Ymddygiad gwrthgymdeithasol **Cymorth**
Partneriaid **Troseddau** **Traffig**
Presenoldeb **Cymunedau**

GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID

Mae hanes hir o weithio'n rhagorol mewn partneriaeth ledled Gwent a byddaf yn parhau i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn parhau.

Byddaf hefyd yn ystyried cyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid i gyflawni yn erbyn y Cynllun hwn yn ystod y cyfnod economaidd heriol hwn.

Wrth ddatblygu'r blaenoriaethau hyn croesawais hefyd ymatebion gan Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Cynghorwyr Lleol, cymunedau a sefydliadau partner i'm hymgynghoriadau ar y Cynllun hwn. Gwnaethant sylwadau perthnasol ynglŷn â phlisma lleol, cydlyniant cymunedol, cydweithredu a rhaglennu diogelu ac atal. Edrychaf ymlaen at weithio gyda hwy ymhellach.

Y ffordd orau o ddatrys y rhan fwyaf o broblemau yw drwy gael y gymuned gyfan i weithio gyda'i gilydd ac mae'r dull gweithredu hwn wedi'i ymgorffori yn y ffordd rydym yn gweithio yma yng Ngwent. Mae'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol yn bartneriaid hollbwysig o ran helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun hwn. Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, byddaf yn parhau i gynnal a meithrin cysylltiadau cryf rhwng y sector gwirfoddol a chymunedol a'm Swyddfa, a datblygu cyfleoedd a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion newydd ein cymunedau.

Dim ond drwy waith partneriaeth cadarn â sefydliadau eraill, a thrwy roi anghenion yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wnawn, y gallwn geisio rhoi'r ansawdd bywyd gorau posibl i'n dinasyddion.

Rhai enghreifftiau presennol o weithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys fy Swyddfa:

- Mae Cronfa Gymunedol yr Heddlu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn dyfarnu arian sydd wedi cael ei atafaelu gan droseddau dan Ddeddf Enillion Troseddau, ac o werthiant eiddo sydd wedi cael ei ddarganfod nad yw pobl wedi ei hawlio, i brosiectau yng Ngwent. Byddaf yn rhoi grantiau i gynorthwyo elusennau, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol o ran atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y gymuned a wasanaethant yng Ngwent ac sydd, ar yr un pryd, yn cyfrannu tuag at fy meysydd ffocws penodol.
- Mae darparu Nyrs Iechyd Meddwl yn brosiect a ariennir ar y cyd â'n partneriaid iechyd, i weithio yn ystafell reoli'r Heddlu er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael y lefel gywir o gymorth ac ymyriadau wrth gysylltu gyntaf. Mae'r dull gweithredu hwn yn cadarnhau fy ymrwymiad i barhau i gefnogi'r egwyddorion allweddol a amlinellir yng Nghoncordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl Cymru.



- Connect Gwent yw'r gwasanaeth amlasiantaethol cyntaf erioed o'i fath yng Nghymru sy'n rhoi cymorth cadarnhaol a pharhaus i ddioddefwyr troseddau gan eu helpu i ymdopi a gwella. Mae'r gwasanaeth wedi dwyn ynghyd nifer o asiantaethau a sefydliadau o dan un to er mwyn cynnig gwell cymorth i ddioddefwyr troseddau. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth y tu mewn i'r broses cyfiawnder troseddol a'r tu allan iddi a'u bod yn cael y cymorth, y wybodaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i ymdopi â gwella.
- Caiff menywod eu cefnogi a'u dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol drwy brosiectau megis menter Women's Pathfinder, sef menter i Gymru gyfan sydd â'r nod o leihau troseddau ac aildroseddau ymhlith menywod yng Nghymru drwy gynnig dull gweithredu integredig sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol menywod. Un rhan allweddol o'r gwaith hwn yw'r Cynllun Dargyfeirio yn dargyfeirio menywod sy'n wynebu risg isel o aildroseddau oddi wrth y system cyfiawnder troseddol tuag at becynnau cynhwysfawr o ymyriadau a chymorth ar y cyfle cyntaf posibl.
- Mae fy Swyddfa hefyd wedi helpu i ariannu a chefnogi'r broses o gyflwyno rhaglen Positive Futures ledled Gwent. Mae'n rhaglen gynhwysiant sy'n seiliedig ar chwaraeon sy'n defnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i fentora pobl ifanc a'u dargyfeirio oddi wrth droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae bron 10,000 o unigolion ledled Gwent yn cymryd rhan yn y rhaglen bob blwyddyn ac mae'r heddlu wedi nodi lleihad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd lle mae'r rhaglen ar waith.

CYD-DESTUN PLISMONA A THROSEDDU YNG NGWENT



Mae Gwent yn ymestyn dros 600 milltir sgwâr ac mae ganddi boblogaeth o fwy na 580,000 o bobl sydd wedi tyfu 4.2% yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Mae Gwent yn cynnwys trefi gwledig, cefn gwlad ac ardaloedd trefol. Mae bron 4% o'r boblogaeth o gefndiroedd Du, Asaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Bydd prosiectau adfywio a thai ar raddfa fawr ledled Gwent yn dod â manteision a heriau yn y blynyddoedd sydd i ddod a hefyd y nifer fawr o gerbydau sy'n defnyddio'r M4.

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd, tlodi a throseddu wedi ei hen sefydlu.

Mae hyn yn bwysig am fod 12% o Went wedi'i diffinio'n

ardaloedd difreintiedig, gyda Blaenau Gwent yn dangos y gyfran uchaf o gymunedau yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yng Ngwent, amcangyfrifir bod 17,000 o blant yn byw islaw'r llinell dlodi.

Yn ôl Arsyllfa Wledig Cymru, mae cyfran y teuluoedd incwm isel gyfuwch mewn ardaloedd gwledig ag y mae mewn ardaloedd trefol.



BLAENORIAETHAU PLISMONA LLEOL

Mae Heddlu Gwent yn gweithredu drwy ddwy Ardal Blismona Leol sydd wedi'u halinio â phum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae Heddlu Gwent wedi'i strwythuro ar sail model o blismona cymdogaeth lleol, wedi'i ategu gan dimau o swyddogion a staff arbenigol hyblyg a chynyddol gydweithredol sy'n darparu gwasanaethau diogelu ychwanegol i helpu i gadw pobl yn ddiogel.

Mae gan Heddlu Gwent adnoddau arbenigol hefyd i ymdrin â bygythiadau megis terfysgaeth, argyfyngau sifil, troseddau difrifol a chyfundrefnol, trefn gyhoeddus, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac achosion o



seibrddiogelwch. Mae Heddlu Gwent yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion y cyhoedd y mae'n ei wasanaethu ac mae'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth sy'n cadw pobl yn ddiogel. Mae wedi buddsoddi er mwyn creu tîm Brysbennu Cudd-wybodaeth sy'n derbyn yr holl gudd-wybodaeth fewnol ac allanol a dderbynnir gan yr heddlu, sy'n ei dilysu ac sy'n ymchwilio iddi a thrwy hynny'n ei gwneud yn bosibl i nodi



bygythiadau i eraill ac ymateb yn gyflym iddynt. Gan fod troseddau a hwylusir gan ddulliau seibr wedi cynyddu, mae Heddlu Gwent wedi buddsoddi er mwyn darparu staff ychwanegol a hyfforddiant i swyddogion ymchwilio a chasglu cudd-wybodaeth ar-lein a thrwy dechnoleg gwybodaeth.

Mae tîm ymchwilio ar-lein wedi cael ei ymgorffori yn strwythur Heddlu Gwent, sy'n canolbwyntio ar amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed rhag unrhyw niwed, ac mae adnoddau a thechnoleg wedi cael eu cyflwyno ar gyfer swyddogion rheng flaen sy'n ei gwneud yn bosibl i swyddogion gael tystiolaeth amser real yn ddi-oed ar gyfer ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt. Mae Heddlu Gwent hefyd yn cefnogi ac yn cynnal rhaglenni ataliol i roi cyngor i bobl ynglŷn â sut i gadw'n ddiogel. Mae'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn cydnabod y rôl y gall ysgolion ac addysg ei chwarae i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a phroblemau sy'n gysylltiedig â diogelwch personol. Mae'r rhaglen yn un ataliol, gyffredinol ac eang ei chwmpas ar y cyfan, sy'n canolbwyntio ar wersi

ffurfiol a roddir gan swyddogion yr heddlu mewn lifrau yn yr ystafell ddosbarth, ynghyd â gweithgareddau plismona cefnogol. Nodau'r rhaglen yw; gweithio tuag at sicrhau lleihad mewn troseddau ac anhrefn ymhlith pobl ifanc yn ein cymunedau; a thrwy gyfrwng addysg, hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol mewn ysgolion a'r cymunedau ehangach.



Diwrnod nodweddiadol



Ymateb i alwadau

Bydd swyddogion yn gwneud oddeutu

27 ARÉST,

y bydd dau ohonynt yn cael eu hadnabod fel 'Trais gydag anaf'



Bydd oddeutu

220

999 o alwadau'n cael eu derbyn.

Bydd oddeutu

502

o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi



Bydd oddeutu

160

o droseddau'n cael eu hysbysu.



Bydd swyddogion yn cyflwyno

2

rybudd

&

1

Hysbyseb Cosb am Anhrefn.



Bydd swyddogion yn ymdrin â

7

byrgleriaeth annedd,

22

lladrad,

6

lladrad o gerbyd modur

2

ladrad cerbyd modur,

31

trosedd treisgar,

1

lladrad a

4

ymosodiad rhywiol

(ymysg troseddau eraill)



Mae Heddlu Gwerddol yn amddiffyn a t

Yn ogystal a throseddau, bydd

Ymateb i 43 digwyddiad o gam-drin domestig, 23 ohonynt wedi eu cofnodi fel troseddau

Ymdrin â 30 digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ymateb i oddeutu 12 hysbysiad am bobl ar goll, y mae pob un ohonynt yn cymryd 9.5 awr ar gyfartaledd o amser yr heddlu.

dol yn Heddlu Gwent



nt yn dod i'r gwaith i
hawelu meddwl

ag ymdrin â
d swyddogion yn:

Gwaith diogelu

Yn ogystal ag ymateb i alwadau am wasanaeth gan y cyhoedd, bydd Heddlu Gwent hefyd yn gwneud gwaith rhagweithiol i ddiogelu'r cyhoedd, gan gynnwys:

Cyflawni saith achos o stopio a chwilio, y mae pump ohonynt yn ymwneud â chyffuriau. O'r saith achos o stopio a chwilio, bydd llai nac un yn arwain at arést.

Mynd i bedwar digwyddiad gwrthdrawiad traffig ffyrdd lle mae profion anadl yn cael eu gweinyddu

Ymateb i oddeutu 25 digwyddiad sy'n gysylltiedig â phobl â phroblemau iechyd meddwl

Cymryd rhan mewn oddeutu 170 o drafodaethau Strategaeth Amddiffyn Plant bob mis

Cymryd rhan mewn oddeutu 48 o drafodaethau Strategaeth Oedolion Bregus bob mis.



Rhoi cymorth i oddeutu tri dioddefwr cam-drin domestig bob dydd trwy'r Galwadau Cynadleda Cam-drin Domestig a Chynadledau Asesu Risg Amlasiantaeth.

Ar hyn o bryd mae 528 o staff heddlu'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth rheng flaen gweithredol.



Mae cerbydau Heddlu Gwent yn gyrru

13400

o filltiroedd bob dydd.

Byddwn

- ✓ yn ofalgar
- ✓ yn heddlu y gellir ymddiried ynddo
- ✓ yn deg
- ✓ yn broffesiynol
- ✓ yn ymatebol

Ym mis Mawrth 2019 amcangyfrifwyd bod poblogaeth Gwent yn 587,743.

Ar hyn o bryd mae 1,324 o swyddogion Heddlu Gwent, sy'n golygu bod un swyddog heddlu ar gyfer pob 444 aelod o'r cyhoedd.

Mae oddeutu 120 o swyddogion cymorth cymunedol yn gweithredu ar draws ardal Gwent.

Y GOFYNIAD PLISMONA STRATEGOL



Yn ogystal â'r galw lleol, mae'n rhaid i Heddlu Gwent hefyd chwarae ei ran a bod yn barod i fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol a bygythiadau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys bygythiadau cenedlaethol a nodir yng Ngofyniad Plismona Strategol yr Ysgrifennydd Cartref:

- Troseddu Cyfundrefnol Difrifol;
- Terfysgaeth;
- Digwyddiadau Seibrddiogelwch Cenedlaethol;
- Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- Argyfyngau Sifil a Threfn Gyhoeddus Twyll; ac
- Marchnata mewn pobl a chaethwasiaeth.

Wrth ystyried ffocws plismona Gwent yn y dyfodol, mae'n rhaid i mi sicrhau bod y blaenoriaethau yn cynnwys ymateb Heddlu Gwent i'r bygythiadau hyn a byddaf yn parhau i weithio gyda'r Prif Gwnstabl i gyflawni'r elfen hon o'r busnes.

Byddaf hefyd yn gweithio gyda'm cyd-Gomisiynwyr, eu priod Heddluoedd a sefydliadau partner rhanbarthol a chenedlaethol ehangach er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau i fynd i'r afael â'r bygythiadau mawr hyn.

Yn benodol, byddaf yn parhau i hyrwyddo a chefnogi Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru a Tarian (sy'n ymdrin â Throseddu Difrifol a Chyfundrefnol), sef cyd-fentrau plismona yng Nghymru er mwyn sicrhau:

- Dull cydlynol o ymdrin â bygythiadau terfysgaeth, eithafiaeth a throseddau cyfundrefnol yn y de;
- Y dull mwyaf cost-effeithiol o ddarparu gwasanaethau heddlu arbenigol hanfodol er mwyn lliniaru a lleihau niwed difrifol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â therfysgaeth a chyflenwi cyffuriau Dosbarth A;
- Integreiddio'n ystyrion ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn y DU gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac Asiantaeth Ffiniau'r DU;
- Cysylltiadau cynaliadwy a sylweddol rhwng cymunedau lleol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU;
- Gallu ychwanegol a mwy o allu i ryngweithredu wrth ddefnyddio asedau'r heddlu yng Nghymru gyda phwyslais ar ddiogelwch cyhoeddus a chydnerthedd; ac
- Cyflawni dyletswyddau statudol y priod Brif Gwnstablaid yn effeithlon ac effeithiol mewn perthynas â therfysgaeth, eithafiaeth a diogelu tystion fel darparwr diogelwch a enwebwyd



GWELEDIGAETH PLISMONA 2025

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau y caiff Gweledigaeth Blismona 2025 Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (APCC) a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) yn y ffyrdd canlynol:

- Alinio plismona lleol, a lle y bo'n briodol, integreiddio â gwasanaethau cyhoeddus lleol eraill er mwyn gwella canlyniadau i ddinasyddion a diogelu pobl sy'n agored i niwed;
- Gwella ein hymateb i fygythiadau newydd a chymhleth, gan ddatblygu ein rhwydwaith a'r ffordd rydym yn darparu galluedd arbenigol drwy atgyfnerthu a chysylltu plismona'n lleol, yn genedlaethol a thu hwnt, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well;
- Sicrhau bod plismona yn broffesiwn gyda gweithlu mwy cynrychioliadol a fydd â'r sgiliau, y pwerau a'r profiad cywir i ymateb i ofynion heriol;
- Gweithredu plismona digidol i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd gysylltu drwy ddulliau digidol a'i gwneud yn fwy cyson;
- Gwella ein defnydd o gudd-wybodaeth a thystiolaeth ddigido a sicrhau y gallwn drosglwyddo pob math o ddeunydd mewn fformat digidol i'r system cyfiawnder troseddol;
- Cyflawni swyddogaethau cymorth busnes yr heddlu mewn modd mwy cyson er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwella'r gallu i ryngweithredu drwy'r heddlu cyfan;
- Rhoi trefniadau atebolrwydd clir ar waith i gefnogi plismona ar lefel leol a chenedlaethol.

DEDDF PLISMONA A THROSEDD 2017



Mae Deddf Plismona a Throsedd 2017 wedi'i datblygu gyda'r nod o wneud plismona yn fwy atebol.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno llawer o newidiadau sydd â'r nod o wella tryloywder a symleiddio gwasanaethau.

Un o'r darpariaethau a groesawais oedd y cam tuag at atal plant a phobl ifanc rhag cael eu cadw yn y ddalfa dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fel 'man diogel'. Rwyf wedi croesawu'r cyfle i weithio gyda'r maes lechyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i atal hyn rhag digwydd i oedolion hefyd.

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i osgoi defnyddio'r ddalfa ac, os oes angen, i sicrhau y gellir darparu manau mwy priodol. Rwyf hefyd wedi sicrhau buddsoddiad er mwyn cyflwyno ymarferwyr iechyd meddwl i ystafell gyfathrebu'r llw. Mae hyn yn golygu y gall pobl sy'n ceisio cymorth iddyn nhw eu hunain neu ar ran rhywun â phroblem iechyd meddwl gael y cymorth cywir pan fydd ei angen arnyn nhw a gan y gwasanaeth cywir. Yn aml, nid yr heddlu yw'r gwasanaeth cywir i roi cymorth dan yr amgylchiadau hyn.

YMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB A LLESIANT



Un o'r addewidion a wneuthum yn ystod yr ymgyrch etholiadol oedd sicrhau bod egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a thegwch yn dod yn gonglfaen yr heddlu yng Ngwent.

Mae hyn yn golygu o ran plismona y caiff pobl eu trin yn gydradd a chyda pharch ac yr eir i'r afael ag anfantais a thlodi. Mae hyn yn dal i fod yn wir a byddaf yn parhau i chwarae rôl weithredol i sicrhau bod fy mlaenoriaethau, a'r heddlu sy'n eu cyflawni, yn cefnogi hyn yn llawn. Byddaf yn rhoi arweiniad er mwyn sicrhau bod cyfraniad yr heddlu i'r gwaith partneriaeth o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dilyn saith nod llesiant y Ddeddf.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn, mae pob Awdurdod Lleol yng Ngwent wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diben y BGCau yw gwella'r llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal drwy atgyfnerthu cydweithio drwy'r holl

wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn ymrwymedig i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a byddaf yn sicrhau bod ei egwyddorion wedi'u hymgorffori yn ein gwaith o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fel gwahoddedigion statudol i'r BGCau, bydd Heddlu Gwent a'm Swyddfa yn dangos tystiolaeth o'n cydweithrediad yn ein holl raglenni cynllunio a chyflawni i gefnogi gweithio mewn partneriaeth a fydd conglaen gwaith y BGCau yng Ngwent.

Byddaf yn gwneud yn siŵr bod amcanion fy Nghynllun yn gyson â Chynlluniau Llesiant y BGCau er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.



CYD-GYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016–2020

Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddodd fy Swyddfa a Heddlu Gwent ein Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf ar gyfer 2016–2020.

Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddodd fy Swyddfa a Heddlu Gwent ein Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf ar gyfer 2016-2020. Fe'i datblygwyd o ganlyniad i arolygon a gynhaliwyd gan y ddau sefydliad drwy ymgysylltu ac ymgynghori'n barhaus â chymunedau drwy gydol y flwyddyn a nododd ofynion mewn ymarfer sy'n ymwneud â materion amrywiaeth. Drwy baratoi'r Cyd-gynllun bydd modd cysylltu'r ffordd rydym yn monitro ac yn craffu ar berfformiad Heddlu Gwent mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn agosach ag amcanion yr heddlu. Er nad yw'n ofynnol drwy statud, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â sut rydym yn cyflawni o ran yr amcanion yn y cynllun.

PRIF AMCANION Y CYD-GYNLLUN YW:



Amcan Cydraddoldeb Un

Troseddau Casineb a Cham-drin Domestig: Canfod cam-drin ac aflonyddu lle mae'n effeithio ar gymunedau ac unigolion, a gweithredu'n effeithiol i atal a herio'r ymddygiad hwn, yn ogystal â dwyn troseddwy'r gerbron llys.



Amcan Cydraddoldeb Dau

Cyfreithlondeb a Thegwch: Sicrhau bod gweithgareddau plismona, yn arbennig achosion o stopio a chwilio, yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n gyfreithlon, cymesur a heb wahaniaethu, sy'n meithrin cydberthnasau cadarnhaol rhwng cymunedau a'r Heddlu.



Amcan Cydraddoldeb Tri

Mynediad, Ymgysylltu a Chydllyniad: Sicrhau bod barn y bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn dylanwadu ar ddarpariaeth ein gwasanaethau a bod y gwaith rydym yn ei wneud yn hyrwyddo cynhwysiant a chydlyniant.



Amcan Cydraddoldeb Pedwar

Creu Gweithlu Cynrychioliadol a Hyrwyddo Tegwch: Gweithio tuag at gael gweithlu sy'n adlewyrchu demograffeg Gwent, a sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cael eu trin yn deg a heb wahaniaethu.



Amcan Cydraddoldeb Pump

Iechyd Meddwl: Gweithio gyda phartneriaid i wella gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n profi salwch meddwl a sicrhau lles ac iechyd meddwl yr holl staff..

Mae gwybodaeth bellach am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb ar **wefan Swyddfa'r Comisiynydd**.⁵

Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu datblygu gan Gomisiynydd y Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Wrth weithredu'r Safonau hyn, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran

statws, ynghyd â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth dwyieithog i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â'm Swyddfa a Heddlu Gwent. Mae fy Swyddfa a Heddlu Gwent wedi datblygu strategaeth ar y cyd sy'n nodi ein hymrwymiad


i'r Gymraeg6 ac er mwyn sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â gweithredu'r gweithgarwch hwn, byddwn yn cyflwyno Adroddiad Blynnyddol i Gomisiynydd y Gymraeg i ddangos sut rydym wedi mynd ati i gyflawni'r safonau.

COST PLISMONA YNG NGWENT

Bydd angen y rhan fwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i mi gyflawni'r Cynllun hwn i ariannu plismona gweithredol.

Mae prosesau cadarn wedi cael eu datblygu dros flynyddoedd lawer i nodi'r arian sydd ei angen i ddarparu heddlu effeithiol, effeithlon a chynaliadwy i bobl Gwent. Mae'r broses gyllidebol yn dechrau'n gynnar yn y flwyddyn ariannol, gan roi Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig manwl sy'n nodi pwysau newydd a chyfleoedd i arbed arian. Ers dechrau rhaglen cyni cyllidol presennol Llywodraeth y DU, mae Heddlu Gwent wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd arian parod gwerth £42.1m hyd at fis Mawrth 2017. Cyflawnwyd yr arbedion hyn drwy gyfateb adnoddau yn well i'r galw a thrwy drawsnewid y model cyflawni plismona cyfan er mwyn diogelu plismona rheng flaen.

Amcanestyniadau Ariannol Tymor Canolig - diffygion cronus



Mae'r her ariannol hyd at 2021/22 wedi'i gwneud yn fwy anodd gan adolygiad y Swyddfa Gartref o fformiwlâ ariannu'r heddlu.

Unwaith bod cyfanswm y gyllideb blismona wedi'i bennu gan y Swyddfa Gartref (drwy'r rhaglen cyni cyllidol), yna pennir y swm a roddir i briod Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn unol â fformiwlâ ariannu'r heddlu. Bu cryn gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r ffaith bod y fformiwlâ bresennol wedi'i dyddio, ei bod yn rhy gymhleth

ac annelwig a bod angen ei hadolygu. Ar ôl 'cam-gychwyn' y broses adolygu yn ystod ail hanner 2015, mae'r adolygiad yn mynd rhagddo unwaith eto, gyda dyddiad gweithredu o flwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, yn bwysig ddigon, dengys ffigurau cynnar o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd yn ystod 2015 mai effaith fformiwlâ ariannu ddiwygiedig yr heddlu bryd hynny oedd toriad o £6m yng Ngrant Llywodraeth Ganolog i Went.

Felly gellid disgwyl y bydd y Swyddfa Gartref yn parhau â'i dull gweithredu gan fod yr adolygiad yn mynd rhagddo unwaith eto. Gallai hyn golygu, o'r flwyddyn ariannol 2018/19 ymlaen, y gallwn fod yn wynebu toriad arian parod o £6m yn ychwanegol at y toriadau sylfaenol a ragwelir o ganlyniad i effaith rhaglen cyni cyllidebol y Llywodraeth. Mae hefyd yn debygol y caiff trefniadau trosiannol eu cymhwyso at y toriad dros nifer o flynyddoedd ariannol.


CYLLIDEB YR HEDDLU A THROSEDDU

RWYF WEDI PENNU CYLLIDEB O £141 MILIWN YN AWR I GYFLAWNI'R CYNLLUN HWN YN 2019/20:


Un o ffynonellau allweddol fy nghyllideb yw'r rhan plismona o filiau treth y cyngor lleol (a adwaenir fel praesept). Penderfynais godi'r praesept 6.99% ar gyfer 2019/20 yng ngoleuni'r heriau ariannol parhaus sydd o'n blaenau.

Mae hyn yn gyfwerth a £1.38 ychwanegol y mis i'r cartref cyffredin, sy'n mynd â'r swm sy'n daladwy bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau plismona a throseddu i £255.53.

Cyllid Refeniw 2019/20 (£m)



Bil Treth Gyngor 2019/20 (£)




Dangosir dyraniad cyffredinol y gyllideb i gyflawni'r cynllun hwn y flwyddyn nesaf yn y siart ar y dde. O fewn y ffigyrau hyn, y gyllideb ar gyfer fy swyddfa i yw £3.04 miliwn, y mae £1.204 miliwn ar gyfer rhedeg Swyddfa'r Comisiynydd a £1.836 miliwn i gomisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan ddarparu'r ar wahân i'r Prif Gwnstabl, megis Gwent Fwy Diogel a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent.

Darperir gweddill y gyllideb, £138 miliwn, i'r Prif Gwnstabl gyflawni plismona gweithredol er mwyn bodloni gofynion y cynllun hwn.

Ar ôl ymgysylltu â phobl yn helaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n hyderus bod y rhan fwyaf o drigolion Gwent wedi derbyn yr angen i gynyddu'r praesept.

Mae fy rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer y tymor canolig yn seiliedig ar gynnydd 6.99% yn y praesept o un flwyddyn i'r llall o 2019/20 i gynnal cyllid arian gwastad.

Gwariant Refeniw 2019/20 (£m)



MONITRO, PERFFORMIAD A CHRAFFU

FEL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU, FI SY’N GYFRIFOL AM GYNNAL HEDDLU EFFEITHLON AC EFFEITHIOL I BOBL GWENT.

Rwy’n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu’r heddlu sydd ei angen.

Rwy’n ymgymryd â’r ddyletswydd hon drwy fonitro a chraffu ar holl weithgareddau Heddlu Gwent. Y Prif Gwnstabl, swyddogion a staff sy’n gyfrifol am ddarparu plismona a chynnal trefn gyhoeddus ac maent yn atebol o dan y gyfraith am arfer pwerau’r heddlu. Maent yn gyfrifol am fodloni gofynion gweithredol y Cynllun hwn fel ddarperir drwy’r blaenoriaethau.

Fel y Comisiynydd, fi sy’n gyfrifol am y canlynol:

- Pennu cyfeiriad strategol gwaith plismona;
- Gweithio gyda phartneriaid i leihau a mynd i’r afael a throseddu ac aildrosteddu;
- Ymgysylltu â’r cyhoedd a chymunedau;
- Bod yn lais i’r cyhoedd, pobl sy’n agored i niwed a dioddefwyr;
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am blismona lleol;
- Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol i bobl Gwent; ac
- Pennu cyllideb Heddlu Gwent a sicrhau gwerth am arian.

PANEL HEDDLU A THROSEDDU GWENT

Er mai i bobl Gwent yn y pen draw rwyf yn gyfrifol, caiff fy ngweithgareddau, fy nghynlluniau a’r prosesau eu gorchwyllo a’u monitro gan Banel yr Heddlu a Throseddu ar eich rhan. Mae Panel Heddlu a Throseddu Gwent yn cynnig cymorth a her i mi wrth i mi gyflawni swyddogaethau⁸ fy rôl. Nid yw’r Panel yn craffu ar berfformiad y Prif Gwnstabl. Mae’n canolbwyntio ar gamau

gweithredu a phenderfyniadau strategol pwysig gennym, gan gynnwys a wyf:

- Wedi cyflawni’r nodau a amlinellir yn y Cynllun hwn;
- Gosod lefel briodol o Praesept; ac
- Wedi ymgynghori’n briodol â’r cyhoedd a dioddefwyr troseddau.

DWYN Y PRIF GWNSTABL I GYFRIF

Rwy’n cyfarfod yn rheolaidd â’r Prif Gwnstabl, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, er mwyn bodloni fy hun, ar eich rhan, bod Heddlu Gwent yn cyflawni ei rwymedigaethau. At hynny, rwy’n cael nifer o gyfarfodydd er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau’r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, mae fy Llawlyfr ar Lywodraethu Corfforaethol⁹ yn amlinellu sut y byddaf yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif ar eich rhan. Mae’n sicrhau bod perthynas agored, gefnogol ond heriol yn gadarnhaol rhyngom. Mae’r heddlu yn ddarostyngedig i drefn arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi hefyd, sy’n asesu plismona’n annibynnol ar draws amrywiaeth o weithgareddau o blismona cymdogaeth i droseddau difrifol gan gynnwys terfysgaeth.

Wrth baratoi ei hadroddiadau, mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei

Mawrhydi yn gofyn y cwestiynau y byddai dinasyddion yn eu gofyn, ac yn cyhoeddi’r atebion mewn ffurf hygyrch. Mae’n rhoi gwybodaeth awdurdodol i alluogi’r cyhoedd i gymharu perfformiad eu gwasanaeth heddlu nhw gyda rhai eraill, ac rwy’n defnyddio’r canfyddiadau i weithio gyda’r Prif Gwnstabl i yrru gwelliannau yn ein darpariaeth gwasanaeth lleol. Rydym yn defnyddio unrhyw ganfyddiadau a ddarperir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i wella darpariaeth gwasanaeth hefyd. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn goruchwyllo’r system cwynion yn erbyn yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yn pennu’r safonau y dylai’r heddlu eu defnyddio wrth ymdrin â chwynion. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn gweithio i sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn y system ac mae ei hargymhellion yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol i blismona er mwyn bodloni gofynion gwasanaeth cwsmeriaid.

BWRDD STRATEGAETH A PHERFFORMIAD

Diben y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad yw:

- Bod yn fforwm gwneud penderfyniadau lle y gallaf ymgynghori â'r Prif Gwnstabl ar benderfyniadau lle y bo'n briodol;
- Bod yn fforwm lle y gallaf ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu plismona yng Ngwent;
- Ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â sut mae gwaith yr heddlu yn cael ei gyflawni yng Ngwent;
- Mae'r Bwrdd hwn yn fforwm lle

mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun gwaith Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad effeithiol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

- Monitro a rheoli'r broses o gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddau;
- Adolygu a monitro sut y caiff y gyllideb ei rheoli.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus fel arfer ond nid cyfarfodydd i'r cyhoedd ydynt. Mae'r agendâu a'r cofnodion10 ar gael ar fy ngwefan.



BWRDD GWEITHREDOL SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Mae'r Bwrdd hwn yn fforwm lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun gwaith Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- Adolygu cynnydd a chytuno ar



gamau priodol y mae angen i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau eu cymryd er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddau a threfniadau llywodraethu priodol;

- Adolygu a monitro'r gyllideb a'r ffordd y dyrennir asedau a chronfeydd i'r Prif Gwnstabl a chyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau;
- Nodi materion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i'w dwyn i sylw'r Prif Gwnstabl, Panel yr Heddlu a Throseddau, partneriaid Diogelwch Cymunedol, partneriaid Cyfiawnder Troseddol a rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol;
- Helpu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i sicrhau ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd;
- Adolygu grantiau a roddir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a gweithredu Strategaeth Gomisiynu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.



CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

Ceir rhagor o oruchwyliaeth a chefnogaeth gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Ei ddiben yw:

- Rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl o ran digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth cysylltiedig;
- Craffu'n annibynnol ar berfformiad ariannol Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau;
- Goruchwyllo'r broses adrodd ariannol a addaswyd o Ganllawiau Ymarferol Pwyllgor Archwilio Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i Awdurdodau Lleol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnig sylwadau, cyngor a sicrwydd ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd rheolaeth mewnol Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.



ARCHWILIO

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn gwneud sylwadau ynghylch a oes gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.



Maent yn archwilio ein datganiadau ariannol ac yn rhoi barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun 'gwir a theg' ynghylch a ydynt wedi cael eu gweithredu'n briodol yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau neu reoliadau a safonau cyfrifyddu cymwys.

Caiff cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol, gan gynnwys y Llythyr Archwilio Blynnyddol, eu hystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio ar adegau priodol yn ei gylch blynnyddol o gyfarfodydd.

Mae dyletswydd ar y Prif Gwnstabl a minnau i gyflawni swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilwyr Mewnol roi sicrwydd hanfodol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol.

Maent hefyd yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â rheoli risgiau busnes ariannol a gweithredol, llywodraethu corfforaethol a'r holl fframwaith rheoli.

POBL GWENT

Rwyf eisoes wedi dweud mai i bobl Gwent yn y pen draw rwyf yn atebol.

I'r perwyl hwnnw, mae gennyf raglen ymgysylltu ac adrodd gynhwysfawr ac rwyf hefyd yn defnyddio nifer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, sy'n rhoi cyfleoedd i mi eich hysbysu am yr hyn rwyf yn ei wneud ar eich rhan a'r hyn a gyflawnwyd. Byddaf hefyd yn parhau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chymorthfeydd mewn cymunedau lleol fel y gallwch sôn wrthyf yn uniongyrchol am eich problemau a'ch pryderon a sut y gallai fy Swyddfa a Heddlu Gwent weithio gyda chi i wneud Gwent yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo. I gael manylion am fy rhaglen ymgysylltu a gweithgareddau, ewch i'm gwefan."



GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WNEUD GWENT YN FWY DIOGEL

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH



Rwyf wedi datgan fy nghefnogaeth i weithio mewn partneriaeth.

Felly croesawaf ddull gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru i gydweithredu er budd dinasyddion ac yn enwedig er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn wahoddedigion statudol i'r BGCau, a fydd yn rheoli cydweithrediad o'r fath a bwriadwn chwarae rhan lawn ym mhopeth y mae'r BGCau yn ceisio ei gyflawni.



Rhoddir cyfleoedd eraill i'r sefydliadau a'r byrddau canlynol sy'n helpu i wneud Gwent yn ddiogel i gydweithredu:

PARTNERIAETH GWENT MWY DIOGEL



Sefydlwyd Gwent Mwy Diogel gan fy Swyddfa yn 2015 ac mae'n gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol allweddol yn y pum ardal awdurdod lleol. Mae'n cynnig dull trefnus a chydgyssylltiedig o sicrhau gwell canlyniadau wrth fynd i'r afael â materion megis atal troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, atal aildroseddu a chefnogi dioddefwyr. Mae Gwent Mwy Diogel yn cyfarfod bob deufis a'i nod yw gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â materion diogelwch rhanbarthol sy'n effeithio ar gymunedau lleol.

Drwy ei flaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt a thrwy ddefnyddio cyfleoedd ariannu sy'n bodoli eisoes mae Gwent Mwy Diogel hefyd yn helpu i gomisiynu gwasanaethau diogelwch cymunedol ac mae wedi dyfarnu cyllid tuag at nifer o brosiectau yng Ngwent. Mae'r dull partneriaeth hwn wedi cael ei gydnabod fel Arfer Da yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad yn 2016, Diogelwch Cymunedol yng Nghymru.

BWRDD TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL



Mae trais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn cyfrif am tua 10% o'r holl droseddau treisgar yng Ngwent.

Mae hyn yn cyfateb i fwy na 12,000 o ddynion a menywod sy'n rhoi gwybod am achosion o gam-drin a thrais yn eu cartref, a thua 20,000 o blant sy'n dyst i gam-drin o'r fath. Felly mae atal y drosedd hon rhag digwydd yn y lle cyntaf yn elfen greiddiol sy'n rhan o'r Cynllun Heddlu a Throseddau hwn. Mae Deddf Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Merched,

Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad strategol a fframwaith ar gyfer sicrhau newid gwirioneddol i bawb sy'n dioddef ac yn goroesi'r troseddau hyn yng Nghymru. Drwy fynychu bwrdd VAWDASV Gwent, a gadeirir gan y Cynghorydd Annibynnol Cenedlaethol ar VAWDASV, byddaf yn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i gyflawni nodau'r Ddeddf i leihau achosion o'r math hwn o drosedd yn y lle cyntaf ond i gefnogi dioddefwyr yn llawn pan fydd troseddau.

GWENT LOCAL CRIMINAL JUSTICE BOARD



The Gwent Local Criminal Justice Board (GLCJB) is a non-statutory partnership that brings together the core criminal justice agencies with a range of key stakeholders in order to improve the efficiency and effectiveness of the local criminal justice system.

The GLCJB is responsible for delivering area level contributions to deliver a fair, efficient and effective Criminal Justice System.

CYFARFOD GRŴP PLISMONA CYMRU GYFAN



Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstablaid o bedwar Heddlu Cymru yn cyfarfod bob chwarter ar gyfer Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Mae'r grŵp yn ystyried gofynion plismona i Gymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a sut mae hyn yn cysylltu â'r model plismona cenedlaethol. Mae'n galluogi trafodaethau ar faterion strategol allweddol ac yn nodi'r ffordd orau o weithio gyda'n gilydd i atal troseddau a diogelu dioddefwyr troseddau rhag niwed difrifol wrth gefnogi anghenion lleol tra'n bodloni gofynion plismona cenedlaethol. Mae Dirprwy Brif Gwnstabl i Gymru Gyfan wedi cael ei benodi'n ddiweddar i ddatblygu cyd-fentrau ar ran y Grŵp hwn.

BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL CYMRU GYFA

Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo gweithio'n agos mewn partneriaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaethau diogelwch cymunedol, gan gynnig dull strategol amlasiantaethol o ymdrin â materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn ein cymunedau.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Cymorth i Ddioddefwyr, GIG Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddau y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Rwy'n mynychu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan gyda fy Nghyd-gomisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a byddaf yn ystyried sut mae natur strategol y bwrdd hwn yn cefnogi ac yn ategu gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

LLYWODRAETH CYMRU



Llywodraeth Cymru Welsh Government

Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi plismona, ac yn enwedig plismona cymunedol yng Nghymru. O ystyried bod yr holl wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan gynnwys y gwasanaethau brys eraill, wedi'u datganoli mae'n amlwg ei bod yn bwysig iawn cynnal perthynas gryf a chadarnhaol â Llywodraeth Cymru. Er nad oes rhwymedigaeth arni, mae Llywodraeth Cymru yn talu am 101 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Ngwent.

SYLWADAU I GLOI

Y MATER MWYAF CYFFREDIN A GODWYD GYDA MI ERS I MI GAEL FY ETHOL YN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU GWENT YW PRESENOLDEB YR HEDDLU.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd tawelu meddwl cymunedau lleol ac mae'n rhan o'r Cynllun hwn, ond mae'n rhaid i mi hefyd ystyried natur troseddu sy'n newid yn ddramatig.



Mae pobl yn dweud wrthyf yn gyson eu bod am weld presenoldeb heddlu mewn iwnniform yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae dyletswydd arnom ni i sicrhau gwerth am arian i bobl Gwent. Nid yw swyddogion heddlu "ar y bîl", ni waeth faint mae pobl yn dymuno eu gweld, yn ffordd effeithlon o fynd i'r afael â throseddu, yn arbennig troseddau sy'n gudd oddi wrth y cyhoedd ar y cyfan gan gynnwys cam-drin domestig a cham-fanteisio.

Mae oddeutu hanner yr holl droseddau yng Nghymru a Lloegr yn rhai seiber; ac maen nhw'n cynyddu. Mae effaith hyn ar blismona'n sylweddol. Bydd angen i swyddogion a staff heddlu feddu ar sgiliau gwahanol iawn i swyddogion a staff hyd yn oed bum mlynedd yn ôl. Yn yr un modd, rydym wedi gweld cynnydd mewn masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern. Rwy'n cynrychioli pob un o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru ar Grŵp Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru sy'n ceisio mynd i'r afael â

chaethwasiaeth fodern.

Rwyf wedi gweld yr effaith ddinistriol mae'n gallu ei gael ar bobl. Oherwydd hyn, mae mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn rhywbeth mae fy swyddfa i a Heddlu Gwent yn benderfynol o'i sbarduno gyda'n partneriaid yn lleol ac yn genedlaethol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i godi ymwybyddiaeth am y drosedd erchyll hon a llunio strategaethau i fynd i'r afael â hi yn y dyfodol.

Llafur gorfodol yw pwrpas mwyaf cyffredin masnachu mewn pobl mewn diwydiannau megis amaethyddiaeth, adeiladu a lletygarwch. Yn ogystal â llafur gorfodol/domestig, gall dynion, menywod a phlant gael eu gorfodi i wahanol fathau o gaethwasiaeth, gan gynnwys puteindra/cam-fanteisio rhywiol, cam-fanteisio troseddol a masnachu mewn plant. Mae hyn yn cynnwys ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol.

Mae maint cynyddol troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber a throseddau difrifol a chyfundrefnol yn gofyn am ymdrech gyd-gysylltiedig rhwng yr heddlu, cymunedau, busnesau, partneriaid a llywodraethau. Ni all un sefydliad unigol fforddio ymdrin â'r bygythiadau cynyddol hyn ar ei ben ei hun; fodd bynnag, trwy weithio gyda'n gilydd yn gyd-gysylltiedig, gallwn atal troseddu a gostwng lefelau troseddu, gan sicrhau bod llai o ddioddefwyr. Nid yw plismona yn wasanaeth sydd wedi ei ddatganoli eto, ond, serch hynny, mae pedwar llu heddlu Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn bartneriaid llawn yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol.

Byddwn yn helpu i sbarduno

gwaith partner er mwyn sicrhau, drwy ein hymdrechion ar y cyd, ein bod yn cael y gwasanaeth gorau posibl i bobl Gwent. Wrth gwrs, ni fydd unrhyw beth yn digwydd i safon dderbyniol os nad oes cyllid digonol. Mae cyllid canolog oddi wrth Lywodraeth y DU yn parhau i ddisgyn ac mae hyn yn golygu bod angen dibynnu mwy ar bobl leol sy'n talu treth y cyngor i sicrhau bod Heddlu Gwent yn derbyn cyllid digonol. Ers 2011, rydym wedi gweld toriadau termau real o 40% mewn cyllid gan Lywodraeth y DU i Heddlu Gwent. Oherwydd hyn, rydym wedi gorfod ail feddwl am y ffordd rydym yn gweithio ac wedi gorfod gwneud nifer o doriadau.

Fodd bynnag, rydym yn un o'r ychydig o luoedd sydd wedi penderfynu parhau i fuddsoddi yn ein staff rheng flaen, ac rydym wedi recriwtio 385 o swyddogion ers 2016. Mae pob un o'r rhain wedi ymrwymo i bwrpas craidd Heddlu Gwent, sef 'amddiffyn a thawelu meddwl'. Trwy roi anghenion pobl wrth galon popeth a wnawn, gallwn geisio rhoi'r ansawdd bywyd gorau posibl i'n trigolion.

Rwy'n gobeithio bod y cynllun diwedddedig hwn yn ei gwneud yn haws i chi ddeall a gweld y gwaith da mae Heddlu Gwent yn ei gyflawni mewn cymunedau ledled ardal y llu bob dydd. Hoffwn eich sicrhau chi bod diogelwch a lles cymunedau a dinasyddion Gwent yn hollbwysig a gallwch fod yn dawl eich meddwl bod Gwent yn dal i fod yn lle diogel iawn i fyw ynddo.



Jeff Cuthbert

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

MYNEGAI O DDOLENNI GWE

1. Adran Adroddiad Blynyddol ar wefan Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (Tudalen 5)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/httpgwentpccsrswalesentra/cyhoeddiadau/adroddiad-blynyddol/>

2. Canfyddiadau Ymgynghoriad Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ar Flaenoriaethau (Tudalen 11)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/gwrando-arnoch-chi/dweud-eich-dweud/>

3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Tudalen 19)

<https://gweddi.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

4. Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Heddlu Gwent (Tudalen 20)

http://www.gwent.pcc.police.uk/fileadmin/Documents/Transparency/Publications/Welsh_Translations/Cymraeg_FINAL_Joint_Strategic_Equality_Plan_2016.pdf

5. Gwybodaeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent am y Gymraeg (Tudalen 21)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/eich-hawliau/yr-iaith-gymraeg/>

6. Dolen i wybodaeth Gwent Mwy Diogel ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (Tudalen 22)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/partneriaethau/gwent-mwy-diogel/>

7. Panel Heddlu a Throseddu Gwent (Tudalen 23)

<http://www.gwentpcp.org.uk/cy/hafan>

8. Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (Tudalen 23)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/httpgwentpccsrswalesentra/cyhoeddiadau/manual-of-corporate-governance/>

9. Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (Tudalen 24)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/bwrdd-strategaeth-a-pherfformiad/>

10. Rhaglen Ymgysylltu a Digwyddiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent (Tudalen 25)

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/digwyddiadau/>